"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 13g Tachwedd, 2017, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.40 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Glenys Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Ifor Owen, Michael Strain

57. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Glyn Roberts oedd yn mynd i'r Ysbyty am lawdriniaeth cyn y cyfarfod nesaf.

Croesawodd Mrs. Carol Williams, Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i'r cyfarfod.
Diolchodd Mrs. Williams am y cyfle i ddod i gyfarfod y Cyngor unwaith yn rhagor.
Dywedodd ei bod bellach wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Iechyd yma yn y Gogledd ers deng mlynedd.
Eglurodd mai pwrpas y Cyngor Iechyd yw rhoi barn cleifion ymlaen a chynrychioli llais y claf, gweithredu fel (yn ei geiriau hi ei hun) "independent health watchdog."
Mae'r Cyngor Iechyd yn gyfrifol am y chwe Sir yn y Gogledd gydag aelodau ar y Bwrdd o wahanol sectorau ac maent yn gwirfoddoli i'r gwaith.
Aeth ymlaen i ddweud ymysg ei dyletswyddau 'roedd:
Yn ymweld ag Ysbytai a Meddygon Teulu heb rybudd a thrwy wneud hynny gallu edrych ar y sefyllfa drwy lygaid y claf ac adrodd ar y canlyniadau i'r Bwrdd.
Gwasaneth cyflwyno cwynion – bydd gan y claf sydd angen gwneud cŵyn berson ('advocate') fydd yn ymchwilio i fewn i'r mater, cyfweld a'r Meddyg teulu a.y. a bydd hynny yn rhad ac am ddim ac yn hollol gyfrinachol.
Monitro a chraffu ar y gwasanaeth iechyd
Ymgynghoriadau gyda'r gwasanaeth.
Codi ymwybyddiaeth am y gwaith – eto yn ei geiriau hi ei hun "patient and public engagement."

Codwyd y mater fod nifer o lythyrau wedi eu hanfon at Mrs. Williams yn ystod y misoedd diwethaf ar ran teuluoedd ond na chafwyd ddim ymateb – pwysleiswyd wrth y Swyddog fod caniatad wedi cael ei roi gan y claf a'r teulu i'w henwi yn y llythyrau.
Addawodd y Swyddog y byddai'n cysylltu â'r Clarc y diwrnod canlynol er cael gwybodaeth am y cwynion hyn.

Diolchwyd i Mrs. Carol Williams a dywedodd y byddai'n barod iawn i ddod i'n cyfarfod eto yn y dyfodol. Ymadawodd a'r cyfarfod.

58. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw aelod yn datgan buddiant personol.

59. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 9fed Hydref, 2017.

MATERION YN CODI

(1) Eitem 51 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (2) ... Materion Ffyrdd
Cyflwynwyd ymateb Dylan Wynn Jones o'r Adran Trafnidiaeth a Chefn Gwlad yn cadarnhau y bydd Swyddog yn ymweld a Phedair Croeslon, Bryncroes, a chreu cynllun a chostau o godi arwyddion i ddynodi'r Eglwys a'r Ffynnon yn y pentref, ac yn cysylltu maes o law â'r Cyngor.

Penderfynwyd derbyn yr adroddaid.

(2) Eitem 51 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (4) – Toiled Cyhoeddus yn Sarn Mellteyrn

Cyflwynwyd e-bost gan Bethan Hughes o Gyngor Gwynedd yn hysbysu bydd y Cyngor yn trefnu arwydd i ddynodi lleoliad toiledau Congl Meinciau ond nad oedd ganddi wybodaeth pryd eto.
O berthynas i gael defnydd o'r toiledau yn Nhafarn Ty Newydd, Sarn Mellteyrn, 'roedd Y Cynghorydd Gareth Williams yn delio â hyn.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(3) Eitem 51 – cymal (5) .. Archwilio'r Cyfrifon

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc iddi gael gair â Selina Jones a Berno Broscott o Llanw Llyn a chael ar ddeall eu bod yn broses o drafod y mater o'r Cyngor gael bod yn rhan o'u gwefan. Dywedwyd ymhellach y byddai'r Cynghorydd Michael train yn gallu ehangu ar y drafodaeth ond yn anffodus nid oedd yr aelod yn gallu od yn bresennol yn y cyfarfod.

Penderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

(4) Eitem 51 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (2) – Materion Ffyrdd

(i) **Cyflwynwyd** ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor i'r cwynion anfonwyd i'w sylw y mis diwethaf. Rhoddir isod grynodeb o'r llythyr:
Lôn Annwyl – y mater wedi ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Adran Amgylchedd yng Nghaernarfon.
Cyflwr y Ffordd o Graig Ewig am benlon Muriau ac i lawr am Benygroeslon – "mae'r ffyrdd a nodir gennych yn cael eu harchwilio'n rheolaidd ac fe adferir unrhyw ddiffygion athrodus yn ôl trefniadau'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd y Cyngor, er sicrhau diogelwch defnyddwyr. Yn anffodus yn olwg lleihad y gyllideb ar gael i ail-wynebu ffyrdd, fel gyda rhaglen waith clytio rhaglenedig, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd i gadarnhau pryd yr ymgymerir a gwaith cynnal strwythurol rhaglenedig."
Penygroeslon – "nid yw cyflwr cyffredinol y gwrychoedd ar hyn o bryd yn cyfiawnhau cyflwyno rhybuddion torri ar y tir berchenogion/deiliad cyfagos. Fe wnaf drefniant fel bo'r gweithlu'n sicrhau fod yr arwyddion 40 m.y.a. yn

weladwy."

(ii) *Penygroeslon – presenoldeb yr Heddlu*

Adroddodd y Clarc fod gwybodaeth i law fod yr Heddlu wedi bod yn ardal Penygroeslon yn ystod y mis diwethaf yn unol â chais y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(iii) *Arwydd 40 mya o Westy Penybont heibio 'Stad Tre'r Ddol, Sarn Mellteyrn*

Cyflwynwyd ymateb Uwch Reolwr Trafnidiaeth a Chefn Gwlad fod y Gorchymyn 'nawr wedi ei gwblhau a disgwylir i'r arwyddion gael eu gosod o fewn 4-6 wythnos (dyddiad y llythyr 16eg Hydref, 2017).

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

60. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn i'r cyfarfod:

(a)Cais C17/0974/32/LL – defnyddio modurdy presennol fel rhan o uned wyliau bresennol ac adeiladu estyniad linc – Ty Newydd, Bryncroes.
(b) Cais ôl weithredol ar gyfer cadw llinell drydan i wasanaethu ail eiddo a gosod llinell drydan tanddaearol – Cae Newydd Mynachdy, Sarn.

Penderfynwyd cefnogi'r ceisiadau.

61. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i'r Cyngor Iechyd.

Yn y cyswllt hwn derbyniwyd nifer o gwynion yn ymwneud a'r gwasanaeth yn y Feddygfa ym Motwnnog a dyfynnir o'r llythyr anfonwyd at Dr. O.G. Morris ar ran y Feddygfa:

Y sgrin sydd yn y man aros yn rhoddi negeseuon uniaith Saesneg. Teimlwn fel Cyngor fod hyn yn sarhad ar yr iaith Gymraeg o gofio ein bod yn byw mewn ardal lle mae'r iaith yn cael ei chyfrif fel un o'r mannau mwyaf Cymreig yng Nghymru.
A oes mesurau mewn llaw i newid y wybodaeth yma yn ddwyieithog?

2. Cŵyn gan glaf ei fod yn ffonio i'r Feddygfa yn rheolaidd i wneud apwyntiad tynnu gwaed a chan nad oes neb yn ymateb i'r alwad am gyfartaledd o ddau funud (yr uchaf yn dri munud a hanner) mae'n costio cryn dipyn i'r claf arbennig yma – sylweddolaf fod y claf ar becyn uchel gyda BT ond nid yw hynny yn berthnasol i unrhyw un heblaw'r person ei hunan.

Ar ben hyn deallaf fod y claf 'nawr yn ffonio ac yn dewis opsiwn 2 ar gyfer y Saesneg ac yn cael ymateb heb ddim oedi – onid yw hyn eto yn sarhad ar yr iaith Gymraeg?

3. Hoffem gael gwybod beth yw'r drefn pan mae claf angen tynnu gwaed wythnos ymlaen llaw cyn gweld Arbenigwr yn yr Ysbyty. Ceisiwyd gwneud apwyntiad bythefnos ymlaen llaw i gael tynnu gwaed yr wythnos ddilynol ond cafwyd ar ddeall fod angen gwneud yr apwyntiad hwnnw yn ystod yr wythnos pan fo angen. Aethpwyd i'r Feddygfa ddydd Llun i geisio cael apwyntiad tynnu gwaed yr wythnos honno, gan fod apwyntiad gyda'r Arbenigwr ddydd lau yr wythnos ganlynol, a chael ar ddeall fod yr apwyntiadau i gyd wedi mynd, ond ar ôl chwilio a chwilota cafwyd apwyntiad ddiwedd yr wythnos.
Beth yw amserlen y rota – ai wythnos i wythnos yw neu a yw'n fisol?
Os yw wythnos i wythnos oni ddylai fod yna rhyw drefn lle gall claf gael mynediad i dynnu gwaed os yw hynny ei angen cyn gweld Arbenigwr mewn ysbyty?

4. Pwynt arall godwyd yn y cyfarfod neithiwr oedd diffyg cael gwneud apwyntiad ymlaen llaw – i'r claf sydd yn dibynnu ar drafnidiaeth cyhoeddus/cludiant gan O Ddrws i Ddrws neu gyffelyb, deulu, anodd iawn yw iddynt drefnu'r cludiant hwn mewn byr amser. Petai'r Feddygfa yn fwy hyblyg a chaniatau gwneud apwyntiad ychydig ddyddiau'n ynghynt yn sicr ddigon byddai gan y claf, sydd yn dibynnu ar rhywun arall, well siawns o allu dod i weld y Meddyg.
Tra ar y pwynt yma, codwyd pryder gan nifer o gleifion hefyd eu bod yn cael eu cynghori gan y Meddyg i wneud apwyntiad arall o fewn, dyweder, wythnos ond pan maent yn mynd at y ddesg maent yn cael cyfarwyddyd nad yw hyn yn bosibl a rhaid ffonio'r bore hwnnw. Mae hyn yn creu rhwystredigaeth i nifer o gleifion ac yn wir gofynnwn i chwi'n garedig ystyried yn ddwys a oes modd newid ychydig ar y drefn."

62. **MATERION FFYRDD**

Adroddwyd fod gwybodaeth wedi dderbyn oddi wrth Adran Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad Cyngor Gwynedd, y byddai ffordd ddi-ddosbarth ger Penllech Bach, Bryncroes, yn cael ei chau o'r 13eg Tachwedd am dri diwrnod.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

63. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliad a ganlyn:

J.A. Pozzi – torri'r Comin ym Mryncroes a llwybrau cyhoeddus - £900 + TAW
o Gronfa'r Fynwent – torri'r fynwent £510 + TAW

64. **DEDDF TRWYDDEU 2013**

Cyflwynwyd hysbysiad o gais o Dan Ddeddf Trwyddedu 2013, dros Cegin Grug, Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog.

Trafodwyd y cais a **phenderfynwyd** ei gefnogi.

65. **AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU – CYNIGION DIWYGIEDIG**

Nodwyd fod Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comiwn wedi ei gyhoeddi ar 17eg Hydref, 2017 ac ar gael ar wefan y Comisiwn : www.comffin-cymru.gov.uk neu mewn mannau cyhoeddus ar hyd a lled Cymru.
Angen anfon y sylwadau erbyn 11eg Rhagfyr, 2017.

Deallwyd nad oedd fawr ddim effaith i fod ar ranbarth y Cyngor yma yn Nwyfor.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

66. **SEDD WAG YN WARD SARN MELLTEYRN**

Cyflwynwyd adroddiad y Clarc iddi dderbyn rhybudd i'w roi i fyny yn datgan y "cynhelir etholiad i lenwi'r sedd wag" (yn Ward Sarn Mellteyrn) "os cyflwynir cais ysgrifenedig am etholiad gan ddeg etholwr o'r ward uchod i'r Swyddog Canlyniadau, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH o fewn y cyfnod sy'n diweddu am 12.00pm ar ddydd Gwener 8 Rhagfyr, 2017."

Os na dderbynir cais o'r fath yna bydd rhaid rhoi rhybudd i fyny o'r bwriad i gyfethol aelod ar y Cyngor fel a ganlyn:

"RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymdeithas Botwnnog yn bwriadu ethol un aelod i lenwi'r lle gwag sydd ar gael ar gyfer Cynghorydd yng Ward Sarn Melteyrn.

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu

- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.[1]

- [1] Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar."

Penderfynwyd gweithredu'n unol a'r drefn ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.